CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd**

**nos Lun 7 Hydref 2019**

Presennol: Cadeirydd y Cyng K Symmons. Cynghr: Iwan Davies, Hywel Davies, Steve Kings, Mrs Nicky Redmond, Mrs Amanda Edwards

CS Clive Davies

Clerc

Aelodau'r cyhoedd: 1

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs L Holder.

**2. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**3. Materion Personol**
Mynegwyd cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mr Marcus Heighton.
Llongyfarchwyd y Cyng Mrs A Edwards ar gwblhau'r hanner marathon.

**4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng S Kings y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng I Davies, a chytunwyd.

**5. Materion yn Codi**
Dywedodd y CS Clive Davies fod y blwch BT yng Nghroes-y-llan wedi ei drwsio.

**6. Ceisiadau Cynllunio**

*Cynllunio*

A190630 Tŷ'r Eglwys, Llechryd
Cynnig i godi modurdy newydd yn lle'r adeilad allanol.
Cefnogwyd y cais gan y Cyngor Cymuned.

A190653 Tir wrth ymyl Maes Cynllo, Llangoedmor
Codi un adeilad fforddadwy
Cefnogwyd y cais gan y Cyngor Cymuned.

*Cynlluniau Lle*
Dywedodd y CS Clive Davies fod ymgynghorydd wedi ei benodi a bod y gwaith yn mynd yn ei flaen.

*Safleoedd cais CDLl2*
Roedd map wedi ei anfon o gwmpas gan y Clerc. Dywedodd y CS Clive Davies y byddai angen mwy o dai ar draws y Sir i fodloni anghenion y dyfodol.

**7. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**

Ymddiheurodd y CS Clive Davies am y cyfarfod ym mis Tachwedd gan ei fod i gyfarfod â'r Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC, i drafod prosiectau lleol gan gynnwys Teithio Llesol a Lora

WAN. Cadarnhaodd fod y tir wrth ymyl y wal wrth y ffordd yng Nglanarberth yn eiddo i CSC ac nad oedd y gwaith heb ei awdurdodi gan un o'r trigolion yn ddiweddar yn torri coed a llwyni i lawr wedi ansefydlogi'r wal.
Cafodd y gystadleuaeth ar gyfer arwydd i atal baw cŵn ei beirniadu gyda chyfraniad y Cynghorydd Sirol. Cytunwyd i gysylltu â CSC i gael help i gynhyrchu'r arwyddion. Roedd safon yr cynigion mor uchel fel y byddai'r holl blant a oedd wedi cymryd rhan yn cael taleb.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Dywedodd fod y datblygiadau OPD yn cael eu monitro'n agos gan CSC. Gofynnodd am i'r fenter gwylio cyflymdra gael ei hysbysebu yn y pentref eto gan fod angen gwirfoddolwyr. Ni chredai y byddai angen mwy na 2 awr o ymroddiad y mis. Roedd arolwg o gyflymdra ledled y Sir i ddigwydd yn 2020, a byddai rhai ffyrdd yn cael eu monitro yn y misoedd cyn yr arolwg.

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.10.19 | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | | 71.20 | |
| | S E Davies | Cyflog | 286.72 | Archeb Sefydlog wedi'i dileu |
| | S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25<br>post 10.02 | 35.02 | |
| | Cofrestrfa Tir | Ffioedd chwilio | 4.00 | Sieciau 2018 y ddau wedi'u dychwelyd. |
| | E M I Jones | Cyfieithu | 280.00 | |
| | LAS | | DU | |
| | Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol | % ffi aelodaeth | 45.50 | |
| | Swallow Business Solutions | Inc a phapur | 155.73 | |
| | SSE | Trydan | 64.28 | |
| | E Rees | Bloc toiledau a sbwriel | 200.00 | |

Cynigiwyd Cyng N Redmond, eiliwyd Cyng H Davies, cytunwyd.

*Cyllideb*
Roedd y Clerc wedi paratoi drafft o'r gyllideb ac aeth drwyddi'n fras. Gofynnodd i'r Cyngr a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau cyn trafodaeth bellach yng nghyfarfod mis Tachwedd.

*Llythyr oddi wrth Glwb Bowls Mat Byr Llechryd yn gofyn am gymorth grant*
Cytunwyd i ofyn am y cyfrifon a rhagor o wybodaeth cyn trafod y cais.

*Contractau*
Cynnal a chadw'r tir
Roedd un cais yn unig wedi dod, gan y contractiwr presennol, ar gyfer y contract torri porfa a gofalu am y blychau blodau. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r contractiwr GAN: Y Clerc

Glanhau
Roedd un cais yn unig wedi dod, gan y contractiwr presennol, ar gyfer y contract glanhau a chasglu sbwriel. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r contractiwr GAN: Y Clerc

*Geiriad anghrefyddol ar gyfer cadarnhau ymrwymiad Cynghorwyr i faterion cymunedol*
Gan nad oedd dim wedi dod ymlaen am y mater, byddai'r Clerc yn ei ddileu o agendâu'r dyfodol.

*Adroddiad bioamrywiaeth*
Roedd yr adroddiad sylfaenol ar-lein fel y mae'r gyfraith yn mynnu.

*Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr*
Roedd y ffurflen wedi ei hanfon at IRPW a'i rhoi ar-lein fel y mae'r gyfraith yn mynnu.

*Polisi ar faneri*
Cytunwyd nad oedd angen polisi.

*Adeilad Ysbyty Aberteifi*

Roedd Maer Tref Aberteifi wedi trefnu Cyfarfod Cyhoeddus ar 19 Hydref am 1pm yn Neuadd y Dref, Aberteifi. Roedd croeso i bawb.

*Contract y Clerc*
Dywedodd y Clerc y gallai'r archwiliad allanol fod ar gyflogau staff. Nid oedd ei chontract hi erioed wedi ei gytuno am ei fod yn cyfeirio at ddogfennau nad oedd y Clerc erioed wedi eu gweld. Roedd y drafft disgyblu a chwynion yn hollol anaddas ar gyfer gofynion cyfreithiol Cyngor fel corff heb ddim rheolwyr etc o fewn y corff hwnnw.
GWEITHREDU: Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i ymchwilio i hyn

*Yn ôl y cytundeb i godi statws y Clerc i SCP 8 - £10.37 yr awr o fis Tachwedd 2019*.
Dywedwyd mai hwn fyddai'r codiad olaf fel yn y llythyr cyflogi o 2011. Gallai codiadau pellach gael eu cytuno ar sail y cytundebau cyflog a pherfformiad cenedlaethol.

*Gwyliau'r Clerc*
Nodwyd.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*ADOLYGU TERFYNAU CYFLYMDRA YNG NGHEREDIGION*
Polisïau a Chanllaw'r Arolwg o Derfynau Cyflymdra
Nodwyd.

**10. Amwynderau**

*Bloc Toiledau*
Roedd y Cyng S Kings yn garedig wedi monitro'r defnydd dŵr ac wedi cyfarfod â'r plwmwr. Cyngor y plwmwr oedd cael dyfynbris am wahanol ddarnau o waith, o gael sestonau newydd yn syml (a fyddai'n golygu addasu'r pibellau presennol) i gael sestonau a phibellau newydd yn lle'r rhai presennol (a oedd wedi eu trwsio a'u clytio droeon). Cytunwyd i barhau gyda dulliau dyfrhau'r mannau wrinal â llaw yn ystod y gwaith glanhau ac i adolygu'r sefyllfa o'r gwanwyn 2020.
Diolchwyd i'r Cyng S Kings am ei waith.

*Cae Chwarae*
Angorau a phystion y gôl – i gael eu gosod.
Gatiau – Cytunwyd y gallai fod yn bosibl cael un gât a phostyn newydd i gadw'r costau i lawr. Anfonwyd syniadau a chostau o gwmpas yn y cyfarfod.
GWEITHREDU: Cysylltu â chontractiwr lleol GAN: Y Clerc

*Llythyr wedi ei anfon at fusnesau lleol ynglŷn â biniau – dim ymatebion hyd yn hyn.*

*Ffiniau a chofrestru tir*
Ynglŷn ag ail-anfon y siec gan fod y Clerc wedi ysgrifennu 2018 ar y siec wreiddiol.

*Hen fin ar y cae chwarae*
Roedd y Cyng S Kings wedi mynd â'r goncrid oddi yno a byddai'n trefnu symud y bin.

*Wedi cysylltu â CSC ynglŷn â biniau'n gorlenwi* ac wedi cael cais i gysylltu â thrigolion i ofyn iddynt beidio â rhoi sbwriel bagiau duon yn y biniau wrth ymyl y ffordd. Dim ymateb hyd yn hyn.
GWEITHREDU: Ymchwilio i hyn GAN: Y Clerc

*Cysylltu â Thai Ceredigion ynglŷn â sied*

**11. Prosiectau'n parhau**

*Mainc ar gyfer yr Eglwys* – roedd cefnogaeth wedi dod i gynllun pont ar y postyn FB ond nid oedd dim dyluniadau wedi eu cyflwyno. Credai'r Clerc y gallai fod yn bosibl defnyddio rhaglen i drosi ffotograff yn ddyluniad. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dyluniad oedd diwedd Hydref.

*Cynllun gwytnwch*
Roedd cyfarfod pellach o'r grŵp wedi ei drefnu..

**12. Digwyddiadau**

*Eisteddfod 2020*
Dywedodd y Cyng C Miles o Gyngor Tref Aberteifi fod digwyddiadau wedi eu trefnu ond wedi eu gohirio oherwydd profedigaeth drist yn y pentref. Diolchodd i'r Parti am ganiatáu i'r Pwyllgor fod yn bresennol yn y Parti, lle codwyd £65.

<u>Sul y Cofio</u> - Dydd Sul 10 Tach, 10.30am (roedd y Neuadd wedi'i llogi o 9.30 i 12.30)

Y Clerc i weithio gyda'r Parch. A Kent i drefnu'r gwasanaeth. Byddai'n holi Pwyllgor y Parti ynglŷn â darparu lluniaeth. Byddai angen cael ffeil o gerddoriaeth trwmped os na ellid dod o hyd i drympedwr i fod yn bresennol.
GWEITHREDU: Trefnu ffeil GAN: Y Cyng I Davies
Roedd y Cyngr Mrs A Edwards a Mrs N Redmond yn garedig wedi cynnig agor y neuadd.

*<u>Cynnau'r Goleuadau</u>*
27.11.19 - 6pm.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr M Penny GAN: Y Cadeirydd

*<u>Ymweliad gan ailgylchwr a bio-dreuliwr MD</u>*
Byddid yn gofyn i Gynghorwyr y Ferwig a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn ymweld. Byddid yn trafod dyddiadau dros dro gyda'r cwmnïau.

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**14. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**
***<u>WEDI GWEITHREDU:</u>***
Gwasanaeth cofio a chysegru i anrhydeddu Michael J Dunphy, Lee T Davies, David M E Greenhalgh wrth Gofeb Rhyfel Aberteifi, dydd Sadwrn 12 Hydref, 2pm.
GWEITHREDU: ATEB GAN: Y Clerc

<u>Nodwyd:</u>
YMGYNGHORIAD AR WAREDU FFONAU TALU BT (RHAN 3)

CSC Gwybodaeth ynglŷn ag Ymarfer y Cyfrifiad

CSC Gwasanaeth Newydd Llwybr Casglu 121 (Casglu Sbwriel)

CSC Gwybodaeth ynglŷn ag Ymarfer y Cyfrifiad

Gwahoddiad i fod yn bresennol mewn gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi am 6pm ar 20 Hydref i ddathlu Pen-blwydd Gofal Profedigaeth Cruse. Croeso i bawb.

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Byddai'r Cyng I Davies yn dod â gwybodaeth am 'Cymru Annibynnol' cyn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Cyng Mrs N Redmund y byddai cyfarfod yn digwydd ynglŷn â darparu cinio Nadolig ar 2.12.19 i drigolion hŷn y pentref. Croeso i bawb fod yn bresennol.

*<u>Eitemau agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf</u>* –
Operation London Bridge – protocolau a gweithdrefnau yn dilyn marwolaeth y brenin/frenhines bresennol.

Cefnogaeth i Gymru Annibynnol

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 4.11.19**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.43pm.*